# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# RHAGLEN CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 10fed o Ragfyr, 2024** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Y Ganolfan, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Gethin Jones** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Caderydd Gethin Jones **(GJ)** bawb i'r cyfarfod ac ymestyn croeso arbennig i Einir Young oedd yn bresennol i drafod pwynt 9.<br><br>**<u>YN BRESENNOL:</u>**<br>Gethin Jones **(GJ);** Sianelen Pleming **(SP);** Lois Fychan **(LF)**; Emlyn Williams **(EW);** Osian Hugh Williams **(OHW);** Y Cyng. Jina Gwyrfai **(JG);** Einir Young a'r clerc Gillian Thomas **(GT).** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | **<u>DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU GAN</u>**<br><br>Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** William Jones **(WJ);** Ynyr Ellis **(YE);** Derek Thomas **(DT);** Olwen Roberts **(OR);** |
| **3.** | **CYFLWYNO A MABWYSIADU COFNODION CYFARFOD TACHWEDD 2024** |
| | Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan LF gyda GJ yn eilio |
| **4.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Dim yn cael ei ddatgan |
| **5.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Popeth mewn cyflwr derbyniol, adroddodd SP bod rhiw un wedi hawlio'r hen gysgodfa ger y ganolfan. Gan ei fod ar restr asedau'r Cyngor cytunwyd bydd y Ganolfan yn llythyru gyda'r cymydog. |
| **6.** | **MATERION YN CODI** |
| | **a)** **<u>DRAIN MYNWENT LLITHFAEN</u>**<br>Trafodwyd y mater gyda Thrysorydd y Fynwent, adroddodd ei bod wedi trefnu i'r drain gael eu torri tair wythnos yn ôl ond oherwydd y tywydd garw roedd rhaid canslo. Erbyn hyn roedd y fynwent yn rhy wlyb oddi tano. Gobeithiodd i ail drefnu yn fuan.<br><br>**b)** **<u>BIN GWASTRAFF CI DIFFYGIOL - CAIS I LEOLI AR DOP NANT</u>**<br>Roedd y clerc wedi cael ei chopïo i e-bost gan Peter Simpson oedd wedi gwneud cais i'r gweithle osod Retriever 50 ar bolyn ar bwys y maes parcio a chais iddo gael ei wasanaethu. |

| | |
|---|---|
| | **c)** **SP - CWYNION PELLACH WEDI EU DERBYN AM 13 CAR WEDI PARCIO YN UN TŶ YN AWELFRYN, AMHOSIB I DDREIFIO I'R STAD.**<br>Roedd swyddog o Grŵp Adra wedi cysylltu gyda'r clerc yn adrodd ei bod wedi ymweld â'r stad ond nid oedd problem ar y dydd. Adroddodd ei bod wedi trafod gyda chymdogion oedd yn adrodd bod ceir yn ymweld â thŷ preifat. I berwyl hyn nid oedd dim oedd y cwmni yn gallu gwneud.<br>Adroddodd OW bod ceir a faniau wedi cael ei symud yn dilyn ymweliad gan yr heddlu. Cynigiodd SP argymell i'r trigolion ffonio'r heddlu yn y dyfodol. Cytunwyd bod mwy o bwysau i'r Cyngor rhoi cwyn hefyd.<br><br>**d)** **GJLJ - CAR YN PARHAU I FOD WEDI PARCIO AR BALMANT O FLAEN VIC- Y CLERC OFYN I'R HEDDLU GAEL GAIR.**<br>Rhannodd y clerc fanylion y car gyda'r heddwas, nid oedd diweddariad wedi ei dderbyn. Adroddodd yr aelodau bod y car yn parhau i achosi problem cerdded ar y llwybr.<br><br>**e)** **GORDYFIANT AR BONT BRYNCELYN ISAF**<br>Y gwaith wedi ei ychwanegu i restr gwaith.<br><br>**f)** **SP - GWTER YN GANOL LON DROS FFOR A ALPHA, ANGEN EI AIL LEOLI LLE FYDD DWR YN GALLU RHEDEG IDDO.**<br>Y gwaith wedi ei ychwanegu i restr gwaith Priffyrdd Dwyfor<br><br>**g)** **FFORDD WERN I BISTYLL**<br>Derbyniwyd gohebiaeth gan y Cyngor Sir yn adrodd bod y ffordd yma wedi cael ei dorri yn y toriadau a drefnwyd yn y Gwanwyn ar Hydref.<br><br>Os oes gan yr aelodau bryderon ynglŷn â gordyfiant o gloddiau mewn lleoliadau arbennig a all fod yn peryglu defnyddwyr y ffordd, byddai derbyn manylion y safleoedd yn caniatáu i Adran archwilio, ac os byddai angen, cyflwyno rhybudd torri gwrych/coed ar y perchennog tir.<br><br>Nid ydynt yn chwistrellu chwynladdwr ar ymylon y rhan yma o ffordd oherwydd nad yw yn cyflawni gofynion y polisi safonol ar lefydd addas i ddefnyddio chwynladdwr.<br><br>Mae'r polisïau a gyfeirir ato uchod ar gael ar wefan y Cyngor Sir<br><br>Adroddodd OW nad oedd gwasanaeth wedi ei gynnal yn y pentref ei hun chwaith. Clerc rhannu a gyrru'r polisi ymlaen i'r aelodau.<br><br>**h)** **PISTYLL – GO SAFE**<br>Adroddodd y clerc bod y Tîm Ymgysylltu ar Ochr y Ffordd wedi mynd i'r lleoliad ar 11 Tachwedd, rhwng 13:00 a 14:15, ac fe gyflawnwyd 7 cwrs ar ochr y ffordd.<br>Y clerc i ofyn am y data |
| **7.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | Dim i'w trafod |
| **8.** | **PRECEPT** |
| | Cytunwyd i drafod yng nghyfarfod mis Ionawr |
| **9.** | **SP - LON GORS LWYD I FRYN FFYNNON** |
| | Adroddodd EY ei bod yn disgwyl am ymateb y Cyngor parthed derbyn y Draft Deed of Easement ers rhai misoedd.<br>Adroddodd y clerc ei bod wedi trafod y mater gyda chyfreithiwr y Cyngor a'i bod yn amlwg bod e-bost wedi mynd ar goll. Nodwyd ei bod dal i ddisgwyl iddo ail yrru'r ohebiaeth.<br>Rhannodd EY y copi terfynol o'r drafft Deed of Easment a gofynnodd i'r Cyngor ei dderbyn. Cytunodd yr aelodau.<br>Y clerc i ofyn i'r cyfreithiwr am gopi terfynol. |

| | |
|---|---|
| **9.** | **MEMORANDUM O DDEALLTWRIAETH RHWNG CYNGHORAU CYMUNED / POLISI IAITH** |
| | Roedd OW wedi mynychu cyfarfod dros Zoom yn ystod y mis yn cael ei arwain gan y Cynghorydd Gruffydd Williams a Siân Parry ynghyd a nifer o gynghorwyr plwyf eraill o Wynedd, pwrpas y cyfarfod oedd i drafod pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg yn cael defnyddio fel iaith ar ein cynghorau plwyf.<br><br>Mae nifer o gynghorau wedi cael ei dwyn i gyfri am ddefnyddio uniaith Gymraeg, y syniad ydi fod bob cyngor plwyf yn gadarnleoedd y Gymraeg yn ymrwymo gyda'i gilydd i sicrhau bod ddim un cyngor plwyf ar ben ei hunain os ydynt yn cael ei herlyn am hyn, drwy ymglymo a dynodi pob cyngor plwyf i fod yn rhan o'r memorandwm o ddealltwriaeth rhwng cynghora plwyf, mi fyddant yn rhan o hyn ac yn cryfhau ein hawl i ddefnyddio'r Gymraeg ac i gynghorwyr y dyfodol ei defnyddio, er mwyn cefnogi ein gilydd nghlun a pholisi iaith ac unrhyw her gyfreithiol.<br><br>Rhannwyd polisi Iaith i'r Cyngor ei fabwysiadu-  gan fod yr aelodau wedi mabwysiadu polisi newydd fis Mai cytunwyd ail edrych ar y mater yn eu Cyfarfod Blynyddol fis Mai 2025. |
| **10.** | **DYNODI EIN HARDAL YN ARDAL O ARWYDDOCÂD IEITHYDDOL DWYSEDD UWCH** |
| | Derbyniwyd gohebiaeth gan Gyngor Cymuned Llanystumdwy yn gofyn i'r Cyngor ystyried Cymeradwyo adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg.<br>Cynigiodd SP ac eiliodd OW gymeradwyo'r adroddiad a gohebu gydag  Eluned Morgan a Mark Drakeford yn adrodd:<br><br>Bod Cyngor Cymuned Pistyll yn cymeradwyo adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg  ac yn credu bod dynodi  ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol yn gam allweddol tuag at gyfnerthu cymunedau Cymraeg. Geilw ar Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd i ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol yn unol ag argymhelliad y Comisiwn.<br><br>Mae'r Cyngor mewn ardal y mae'r Gymraeg yn iaith bob dydd mwyafrif ei thrigolion, a'u bod yn credu bod Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn un pwysig tu hwnt ac y byddai dynodi Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol yn gam ymlaen at sicrhau dyfodol ein cymunedau a diogelu'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Byddai'r dynodiad yn rhwyddhau'r ffordd i amrywio polisi yn lleol gan roi ystyriaeth ddyledus i'r Gymraeg. |
| **11.** | **PENDERFYNIAD PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU - CYNLLUNIO A CHYMUNEDAU CYMRAEG** |
| | Ar 7fed Tachwedd 2024 craffodd Pwyllgor Craffu Cyngor Gwynedd  'Gynllunio a Chymunedau Cymraeg'. Craffwyd y mater hwn oherwydd bod angen sicrwydd bod y drefn gynllunio yn ystyried o ddifri effaith datblygiadau (mawr a man) ar gymunedau Cymraeg bregus. Penderfynodd y pwyllgor i dderbyn yr adroddiad yn ddarostyngedig ar sawl argymhelliad gan gynnwys atgoffa Cynghorau Cymuned a Thref o'u rhyddid i gyflwyno sylwadau am effaith ieithyddol posib gall datblygiadau cynllunio lleol ei gael ar yr ardal.<br><br>Bydd mod gweld copi o'r adroddiad a'r penderfyniad trwy ddilyn y ddolen hon:<br><br>Rhaglen ar gyfer Pwyllgor Craffu Cymunedau ar Ddydd Iau, 7fed Tachwedd, 2024, 10.30 y.b. (llyw.cymru) <https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/ielistdocuments.aspx?mid=5350&x=1> |
| **12.** | **ADRODDIAD ARCHWILIO CYMRU 2022 – 2023** |
| | Cymeradwywyd yr adroddiad ond nid oedd yr aelodau yn fodlon derbyn yr argymhellion gan fod y clerc wedi gyrru esboniadau. |

| | |
|---|---|
| **13.** | **BIN GWASTRAFF CI AR DOP Y NANT** |
| | Roedd y Cyngor Sir wedi cytuno gosod bin gwastraff ar dop y nant ac ei wasanaethu. |
| **14.** | **LLECYNNAU ANGEN EU HARDDU YN LLITHFAEN** |
| | Nid oedd y wybodaeth angenrheidiol i symud ymlaen wedi dod i ddwylo SP hyd yn hyn. |
| **15.** | **Y GANOLFAN, LLITHFAEN** |
| | Adroddodd SP bod y gweithgareddau'r Ganolfan yn brysur gychwyn yn ôl.<br>Bydd y Ganolfan yn cychwyn gwaith i ddynodi llefydd parcio ar ôl y Nadolig. |
| **16.** | **MATERION LLEOL** |
| | JG - Adroddodd GJ ei bod wedi gwneud cais i Gyngor Gwynedd gychwyn proses ffurfiol i fabwysiadu enw fel yn statudol.<br><br>LF - Dwr yn sefyll dros ffordd a safle bws Pistyll, hefyd ochrau'r lon rhwng Pistyll am Lwyn Fynnon angen ei glanhau gan fod ceir yn trafaelio yng nghanol y lon oherwydd llifogydd.<br><br>SP - Cae Tre Dafydd ddim yn cael ei wagio yn ddigonol, dwr yn dod i lon. Gofyn i Gyngor Gwynedd pam bod mwy o ddŵr yn dod lawr ochor dde'r lon hefyd.<br><br>GJ - Dwr yn sefyll ar y lon rhwng Pistyll a Phentre' Uchaf, Cytunodd GJ yrru lluniau i'r clerc eu rhannu.<br><br>GJ - 2 dyfynbris wedi ei dderbyn am safle we'r Cyngor. Bydd 3ydd yn cael ei dderbyn wythnos nesaf.<br><br>JG – Adroddodd bod aelod diweddar y Cyngor sef LJ yn wael ofnadwy, gofynnodd i'r aelodau yrru dymuniadau da iddi. |
| **17.** | **HYFFORDDIANT** |
| | Oherwydd y tymor Nadolig nid oedd posib i'r aelodau fynychu. |
| **18.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | a) Gwybodaeth am RAAC mewn Adeiladau<br>b) Bwletin Newyddion Un Llais Cymru<br>c) GWAHODDIAD - Cyfarfod cynghorau cymuned a thref Pen Llŷn i DRAFOD CYDWEITHIO<br>d) Cyfarfod Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **19.** | **CYLLID** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| + | **CYFRIF CYFREDOL MAWRTH 2024** | | **£ 17,184.69** |
| + | **CYFRIF CADW MAWRTH 2024** | | **£ 2,717.05** |
| - | **LLAI TALIADAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC** | | **£ 3,936.75** |
| + | **GWARGED 2024/ 2025** | | **£ 4,027.46** |
| = | **CRONFA'R CYNGOR** | = | **£ 19,992.45** |

**I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC**

**CYFRIF CYFREDOL - 01 o Dachwedd I 30 o Dachwedd 2024**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£ 18,467.87** |
| Derbyniadau | + | £ - |
| Gwariant | - | £ 921.40 |
| Balans Cau | = | **£ 17,546.47** |

**<u>CYFRIF CADW - 07 Hydref I 6ed o Dachwedd 2024</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£ 2,744.41** |
| Derbyniadau | + | £ - |
| Gwariant | - | £ - |
| Balans Cau | = | **£ 2,744.41** |
| | = | **£ 20,290.88** |

**<u>LLAI TALIADAU HEB EU CYFLWYNO YN Y BANC</u>**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | | | |
| | | | |
| | | = | **£ -** |

**<u>LLAI TALIADAU I'W CYMERADWYO</u>**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | Cyflog Clerc | **201331** | **274.60** |
| - | Treuliau | " | **23.74** |
| - | | | |
| | | = | **£ 298.34** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **<u>SYDD YN CYTUNO GYDA CHRONFA'R CYNGOR</u>** | = | **£ 19,992.54** |
| - | **<u>LLAI BALANS CRONFA DIFFIBLWR (LL)</u>** | - | **-£ 15.70** |
| - | **<u>LLAI BALANS CRONFA DIFFIBLWR (P)</u>** | | **£ 242.00** |
| | | | |
| = | **<u>CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON</u>** | = | **£ 19,766.24** |

a)

| | |
|---|---|
| **20.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | 7fed o Ionawr 2025 y Ganolfan, Llithfaen am 7<br>Precept |